# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.07** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_19_02_2014&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Sandy Mewies (yn lle Ann Jones)**<br>**Julie Morgan** |
| Tystion: | **Jane Hutt, Gweinidog Cyllid**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Lynne Hamilton, Finance and Commercial, Welsh Government**<br>**Gareth Morgan, Diwygio Ariannol, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Salway, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones. Roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ynghylch Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-14.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid i ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu sut mae hi'n bwriadu ymdrin â'r pryderon a fynegwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr i'r Ysgrifennydd Parhaol ar 13 Tachwedd 2013. Cytunodd y Gweinidog i baratoi a chyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Swyddfa Gyflwyno ar y cynllun *Buddsoddi i Arbed*, esbonio ystyr rhyddhau'n gynnar a nodi'r arbedion y mae'n eu disgwyl o dan y cynllun yn glir. Cytunodd hefyd i gadarnhau dyraniad y gyllideb sydd i'w weinyddu o dan y Gronfa Cymorth Dewisol.

## 3 Bil Drafft Cymru: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ynghylch Bil drafft Cymru.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon y Papur Gorchymyn at y Pwyllgor, pan fydd Llywodraeth y DU wedi ei gyhoeddi, er mwyn i'r Pwyllgor ystyried y papur a gwneud sylwadau yn ei gylch, gan gynnwys yr amserlenni tebygol o ran gweithredu'r Bil.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

4.1 Comisiwn y Cynulliad: Cyllideb Atodol 2013-14: Llythyr gan Angela Burns AC (12 Chwefror 2014)

4.2 Bil Drafft Cymru: Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (14 Chwefror 2014)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014: Ystyried y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Cyllid ynghylch Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-14 a chytunodd i ystyried adroddiad y Pwyllgor y tu allan i'r Pwyllgor oherwydd materion o ran amseru.

## 7 Bil Drafft Cymru: Ystyried y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Cyllid ynghylch Bil drafft Cymru a chytunodd i'r Cadeirydd ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y pwyntiau a godwyd a hefyd i wahodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i'r Pwyllgor.

## 8 Y Dull o Weithio wrth Graffu ar y Gyllideb: Gwaith craffu effeithiol ar y Gyllideb gan Bwyllgorau

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd a chytunodd y Cadeirydd i ymateb ar sail y drafodaeth.

## 9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015: Adroddiad cynnydd

9.1 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i gael y newyddion diweddaraf yn chwarterol os bydd y sefyllfa'n aros yr un fath. Os bydd cynnydd yn hynny o beth, cytunodd i gael y newyddion diweddaraf yn fisol.